



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Diogelu

Efallai eich bod yn gweithio mewn adeilad newydd a/neu gyda phobl newydd a phobl nad ydych yn eu hadnabod, wrth i chi gefnogi gwaith hollbwysig i ddarparu gofal yn ystod pandemig y coronafeirws. Wrth i bobl o asiantaethau a lleoliadau gwahanol gydweithio, mae'n bwysig bod gan bawb yr un wybodaeth am yr hyn y dylent ei wneud os byddant yn poeni y gallai oedolyn fod mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso. Bydd rhai ymarferwyr ar y safle yn brofiadol wrth ymateb i bryderon diogelu, ond mae'n bosibl y bydd rhai ohonynt yn llai hyderus o ran sut i ymateb o dan y trefniadau gweithio newydd.

- Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi blaenoriaethu diogelu fel maes cymorth hollbwysig. Bydd timau Dyletswydd ac Argyfwng yn parhau ar agor ac mae'n bwysig bod unrhyw bryder am oedolyn sydd mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso yn cael ei rannu cyn gynted â phosibl.
- Ni ddylai ofnau am rannu gwybodaeth fod yn rhwystr i ddiogelu a hybu llesiant oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Rhaid i bob ymarferydd gymryd cyfrifoldeb am rannu'r wybodaeth sydd ganddo, ac ni all dybio y bydd rhywun arall yn trosglwyddo gwybodaeth a all fod yn hollbwysig i gadw unigolyn yn ddiogel.
- Os byddwch yn cael gwybodaeth gan oedolyn, neu o rywle arall, ei fod mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu os byddwch yn gweld rhywbeth sy'n gwneud i chi boeni ei fod mewn perygl, rhaid i chi drosglwyddo'r pryderon hyn cyn gynted ag y gallwch.
- Dylech ymgysylltu â pholisi diogelu eich sefydliad ac i bwy y dylech gyfeirio pryderon. Mae'n bosibl y bydd yr unigolyn hwn yn newid os bydd angen i staff hunanynysu, felly dylech gadarnhau'r manylion hyn bob dydd wrth gyrraedd.
- Os bydd gennych sail rhesymol dros amau bod oedolyn mewn perygl o gael ei esgeuluso neu ei gam-drin, **rhaid i chi roi gwybod i'r awdurdod lleol am y mater hwnnw** cyn gynted â phosibl.
- Os bydd gennych unrhyw bryderon, **rhaid** i chi siarad â'ch goruchwyliwr/rheolwr cyn i'r person fynd adref ar ddiwedd y dydd.
- Os na allwch gysylltu â'ch goruchwyliwr/rheolwr am ba reswm bynnag, **rhaid** i chi ffonio Tîm Gwasanaethau Oedolion yr awdurdod lleol a rhoi gwybod iddo am eich pryderon cyn i'r person adael. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod y rhif. Gallwch ddod o hyd iddo ar y poster yn eich lleoliad ac ar-lein.